# Gardd Synhwyraidd a Pherllan Ffrwythau Ymddiriedolaeth Pentref Cambrian




## Nod Llesiant

## Ffyrdd o weithio

Mae Ymddiriedolaeth Pentref Cambrian yn elusen yng Nghymoedd y Rhondda ym Mharc Gwledig Cwmclydach. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio gyda nifer o sefydliadau eraill i gynnig amrywiaeth o weithgareddau iechyd a lles, chwaraeon a chyfleoedd dysgu yn yr awyr agored i'w cymunedau lleol.

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Pentref Cambrian (CVT) yn 2001 gyda'r bwriad o ddarparu cyfleoedd pêl-droed i bobl ifanc yn ardal leol Tonypandy.

Ers hynny, mae'r ymddiriedolaeth wedi ehangu i gynnwys caffi cymunedol – Bar Caffi Cambrian Lakeside – sy'n cael ei ystyried gan bobl leol fel calon y gymuned. Mae'r safle'n cynnig nifer o weithgareddau i wahanol grwpiau cymunedol, gan gynnwys

- Gweithgareddau hamdden a dysgu yn yr awyr agored i oedolion ag anableddau dysgu
- Rhaglen iechyd a lles ar gyfer grwpiau o: ddynion dros 50 oed; menywod ifanc; pobl sy'n byw gyda gorbryder ac iselder
- Pobl â nam corfforol a synhwyraidd; pobl ifanc awtistig; a gofalwyr

Dechreuodd yr ymddiriedolaeth weithio mewn partneriaeth â TrC yn 2020, pan ddyfarnwyd ein grant cyntaf gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (NLHF) o dan y grant Lleoedd Lleol ar gyfer Natur. Defnyddiwyd yr arian hwn i greu'r ardd "o'r pridd i'r plât", a ddatblygwyd gyda'r bwriad o wella bioamrywiaeth, addysgu'r gymuned ar ddiogelu'r amgylchedd, a thyfu ffrwythau, llysiau a pherlysiau ffres. Roedd yr ardd yn llwyddiant mawr, ac roeddem ni wrth ein bodd yn ymestyn y cyfle i'r ymddiriedolaeth weithio gyda ni unwaith eto.

O dan y Cynllun Coed Cymunedol, ein hail grant Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, mae CVT wedi gallu gwella'r mannau gwyrdd hygyrch ar y safle, drwy ddatblygu Gardd Synhwyraidd a Pherllan Ffrwythau Ymddiriedolaeth Pentref Cambrian.

> "Bydd cael yr ardd hon yn gwneud byd o wahaniaeth i'r aelodau o'r gymuned rydyn ni'n gweithio gyda nhw, nid yn unig o ran eu hiechyd, eu lles a'u datblygiad ond hefyd fel ffordd o wella eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u ffordd o fyw."

Geiriau allweddol: Coetiroedd Cymunedol, prosiectau sy'n cael eu hariannu gan grantiau, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, gardd synhwyraidd, tyfu bwyd, mannau gwyrdd hygyrch, ymgysylltu â'r gymuned, cenedlaethau'r dyfodol, partneriaethau, effaith gynaliadwy

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES
CAMBRIAN VILLAGE TRUST
Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru
In Partnership with Welsh Government
Gwnaed yn bosibl gan | Made possible with
Cronfa Treftadaeth
Heritage Fund



Nod y prosiect oedd creu gardd synhwyraidd ddiogel i'w defnyddio gan y grwpiau a gefnogir a Sight Life, elusen i'r deillion, ac fel parhad yr ardd O'r Pridd I'r Plât.

Roedd y safle a ddewiswyd yn ddarn o dir heb ei ddefnyddio wrth ymyl y maes parcio. Defnyddiwyd y cyllid i drawsnewid yr ardal hon drwy blannu cymysgedd o goed a llwyni blodeuol a rhai fyddai'n cynhyrchu ffrwythau, a hynny er mwyn cynnig ysgogiad synhwyraidd. Mae'r ardd yn gwbl hygyrch ac mae llwybr wedi'i osod ar ei thraws ynghyd â nifer o fannau eistedd i ddefnyddwyr eu mwynhau. Mae'r twnnel polythen yn ofod addysgol, sy'n rhoi cyfle i aelodau'r gymuned wella eu sgiliau, ac yn gyfleuster i dyfu planhigion ychwanegol ar gyfer y ddau safle, gyda chyfleoedd i dyfu o had, cynaeafu cnydau a defnyddio ffrwythau i wneud jamiau a siytni.

Gyda'r gwaith o greu'r ddwy ardd, roedd CVT yn gallu penodi Cydlynydd Bwyd a Natur Gynaliadwy amser llawn, a fydd yn gyfrifol am y gerddi. Byddan nhw'n cynnal cyrsiau a sesiynau cymunedol i addysgu pobl leol ymhellach ynghylch cynhyrchu bwyd.

Mae'r gymuned leol ac aelodau'r Ymddiriedolaeth wedi croesawu'r ardd newydd yn frwd. Gyda nifer o ddigwyddiadau a diwrnodau tyfu cymunedol wedi cael eu cynnal, meddai Sight Life,

"Mae'r aelodau gallu cael tawelwch a mwynhau'r hyn sydd o'u cwmpas mewn lle diogel a chroesawgar".









"Mae'r ardd yn gatalydd ar gyfer creu cysylltiadau cymdeithasol rhwng ein gwirfoddolwyr, grwpiau ac aelodau o'r gymuned, ac mae wedi gwella eu lles corfforol ac emosiynol."

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

CAMBRIAN VILLAGE TRUST

Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru
In Partnership with Welsh Government

Gwnaed yn bosibl gan | Made possible with
Cronfa Treftadaeth
Heritage Fund